Y Cyfrifiad

Dogfen swyddogol y llywodraeth ar gyfer cofnodi'r bobl sy'n byw ym Mhrydain ydy'r cyfrifiad. Mae'n cael ei gwblhau unwaith bob 10 mlynedd. Mae'n dweud wrthyn ni pwy sy'n byw yn ble, a beth ydy eu





Cafodd cyfrifiad cyntaf y llywodraeth ei gynnal yn 1801. Mae yna gyfrifiad wedi bod bob deng mlynedd ers hynny, ar wahân i 1941, oherwydd yr Ail Ryfel Byd. Mae'r cyfrifiad yn ddefnyddiol gan ei fod yn ein cynorthwyo i gymharu a monitro'r boblogaeth, galwedigaethau ac ystadegau eraill dros amser.

Yn y darn bychan hwn o gyfrifiad Llangadog yn 1851, mae Henry Thomas, 54 oed, yn cael ei enwi fel y penteulu, ac mae ei wraig, Elisabeth, yn 33 oed. Roedd Henry Thomas yn gweithio fel chwarelwr. Roedd ei ŵyr 10 oed, Henry, a'i wyres 8 oed, Margaret, yn byw gyda nhw.